*Statws* This is the original version (as it was originally enacted).

# ATODLEN 12

## CYFYNGIADAU AR DRAFODIADAU A RECRIWTIO ETC. GAN GYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Trothwyon ariannol: darpariaeth bellach*

8 (1) Pan na fo'r gydnabyddiaeth mewn cysylltiad â thrafodiad, nac unrhyw ran ohoni, mewn arian, mae'r trothwyon a nodir ym mharagraff 6 yn gymwys i werth y gydnabyddiaeth.

(2) Wrth ddyfarnu a yw trothwy a nodir ym mharagraff 6 wedi ei groesi, pan fo cwestiwn yn codi ynglŷn â gwerth y gydnabyddiaeth mewn perthynas â thrafodiad a bod y personau o dan sylw yn methu â dod i gytundeb, mae Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y cwestiwn at ddibenion y dyfarniad.